Mawrth 2025

# Cylchlythyr

## Annwyl Rieni/Gwarchodwyr

Dyma ein Cylchlythyr Misol cyntaf er mwyn rannu y newyddion diweddaraf ac i hysbysebu unrhyw ddigwyddiadau cyfagos. Edrychwn ymlaen at rannu ein llwyddiannau gyda chi.

## Digwyddiadau i ddod

20.03.25: Bydd y disgyblion yn derbyn Gweithdai Kinetic School of Performing Arts.
21.03.25: Bydd grwp o ddisgyblion yn diddanu oedolion yng Nghanolfan Hamdden Pentwyn
28.03.25: Bydd digyblion Bl 5 a 6 yn cymryd rhan mewn Gweithdy Ffrindiau Bardd Plant Cymru
21.03.25: 2yp bydd sioe ffasiwn blwyddyn 2 i rieni yn neuadd yr ysgol
01.04.25: Bydd disgyblion o flwyddyn 5 yn cymryd rhan yng Nghystadleuaeth Lego League yn Ysgol Groeswen

## Llwyddiannau/Digwyddiadau



### Siarter Iaith Ysgolion

Hyfryd oedd dathlu llwyddiant yr ysgol wrth i ni ennill Gwobr Arian Siarter iaith. Diolch i Miss Nolan a'r Criw Cymraeg am eu gwaith caled.

**Perth newydd**

Efallai eich bod wedi sylwi ar perth newydd sydd wedi cael ei blannu o gwmpas y goedwig fechan. Gofynnwn yn garedig i chi beidio adael i'ch plant cyffwrdd a rhain wrth iddynt ddechrau tyfu.





**Eisteddfod Ysgol**

Da iawn i bawb am gymryd rhan yn ein Eisteddfod Ysgol eleni. Llongyfarchiadau i Amelie am ennill y Gadair eleni. Llongyfarchiadau hefyd i lys Derwen am ennill yr Eisteddfod.

**Ymweliad Interim Estyn**

Roeddwn wedi derbyn Ymweliad Interim gan Estyn yn ddiweddar ac roeddynt yn hapus gyda'r cynnydd y mae'r ysgol yn ei wneud. Fe fydd llythyr yn cael ei gyhoeddi cyn hir.

## Ffrindiau

**Ffair Pasg**

Cofiwch am Ffair Pasg y ffrindiau ar yr 8fed o Ebrill. Dewch yn llu.

**Gweithgareddau Eraill**

04.04.25: Diwrnod dillad eu hunain - cyfraniad o siocled neu arian tuag at y Ffair Pasg
06.06.25: Diwrnod dillad eu hunain - cyfraniad tuag at jariau o lawenydd neu arian tuag at y Ffair Haf
26.06.25: Ffair Haf



Mawrth 2025

# Cylchlythyr

## Llwyddiannau/Digwyddiadau


**Ffram ddringo!**
Hwre!! Mae'r ffram ddringo wedi ei trwsio ac yn gweithio





**Diwrnod y Llyfr**
Cafodd y disgyblion llawer o hwyl yn dathlu Diwrnod y Llyfr eleni. Roedd pawb yn edrych yn wych!

**Gwasnaeth**
Diolch i Mother Rose o Eglwys Yr Holl Saint am y wasanaeth hyfryd.



## Presenoldeb

Presenoldeb yr ysgol hyd yn hyn yw
94.36%
Ein targed yw 95%

Mae presenoldeb cyson yn holl bwysig er mwyn sicrhau bod eich plentyn/plant yn cyrraedd eu llawn potensial

## Cofiwch

Cofiwch bod Cylch Ti a Fi yn cael ei chynnal yn yr ysgol bob prynhawn dydd Iau yn ein dosbarth Meithrin




**Instgram yr Ysgol**
**ysgol_penygroes**